PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Pris Tlodi Disgyblion

## Defnyddio Dull Ysgol Gyfan i Wella Llesiant Plant o Deuluoedd Incwm Isel a Theuluoedd Difreintiedig

## Taflenni Gwybodaeth - Canllawiau 1 - 5

Mae'r taflenni gwybodaeth canlynol yn cynnwys crynodeb o bob un o'r pump canllaw Pris Tlodi Disgyblion. Maent yn amlygu'r brif effaith ar les dysgwr, yn nodi meysydd allweddol i'w hystyried, a rhai dulliau gweithredu cyflym i fynd i'r afael â rhwystrau posibl y gall disgyblion o deuluoedd incwm isel a difreintiedig eu hwynebu yn yr ysgol.

Mae'r taflenni gwybodaeth hyn yn cynnig cipolwg o'r canllawiau ac yn helpu i gyflwyno pob un, a'u themâu, i aelodau staff yr ysgol. Gallant hefyd annog trafodaethau ynghylch tlodi, a'r hyn y gall ysgolion ei wneud i ddatblygu cynllun gweithredu yn unol â'r canllawiau.

Cewch hyd i'r canllawiau ar wefan Hwb Addysg Llywodraeth Cymru - https://bit.ly/2uZCZ9w

Am fwy o wybodaeth cysylltwch a kate.thomas@childreninwales.org.uk

info@childreninwales.org | 029 2034 2434 | www.plantyngnghymru.org.uk | www.childreninwales.org

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Pris Tlodi Disgyblion

## Beth mae hyn yn ei olygu a beth all ysgolion ei wneud?

### Effaith ar ddysgwyr

Gall tlodi wneud i blant deimlo wedi'u hallgau, teimlo stigma a phrofi bwlio.

Mae'n effeithio ar addysg a chyfleoedd bywyd plant, sy'n colli'r cyfle i wneud eu gorau gallu

### Meysydd allweddol i'w hystyried

**Adnabod yn gynna**
Gwybodaeth fanwl o'u hanghenion

**Adolygu Polisi**
polisïau yn unol â thlodi

**Ymwybyddiaeth o dlodi**
A oes gan staff a disgyblion ddealltwriaeth o'r hyn y mae tlodi yn ei olygu?

**Y cwricwlwm**
Pa feysydd y mae dealltwriaeth o dlodi yn berthyn iddynt

### Rhai dulliau gweithredu cyflym

- Penodi Hyrwyddwr ecwiti o blith staff yr ysgol
- Adnabod/gwneud cofnod o ddisgyblion o deuluoedd incwm isel neu ddifreintiedig
- Ymgysylltu â rhieni/gofalwyr
- Codi ymwybyddiaeth o fudd-daliadau a grantiau y gellir eu hawlio
- Datblygu cynllun gweithredu
- Penodi Llysgennad Ecwiti o blith y dysgwyr yn yr ysgol
- Mabwysiadu agwedd ysgol gyfan
- Darparu hyfforddiant i staff er mwyn adnabod arwyddion tlodi
- Cynyddu ymgysylltiad ac ymrwymiad gan amrywiaeth o randdeiliaid ar lefel ranbarthol, awdurdod lleol a chymunedol
- Defnyddio adnoddau presennol

Cewch hyd i'r canllawiau ar wefan Hwb Addysg Llywodraeth Cymru - https://bit.ly/2uZCZ9w

Am fwy o wybodaeth cysylltwch a kate.thomas@childreninwales.org.uk

info@childreninwales.org | 029 2034 2434 | www.plantyngnghymru.org.uk | www.childreninwales.org

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Pris Tlodi Disgyblion

## Beth mae hyn yn ei olygu a beth all ysgolion ei wneud?

### Effaith ar ddysgwyr

Gall mynd i'r ysgol heb y wisg ysgol gywir arwain at bryder.

Mae teimladau o embaras, bwlio posibl a thrueni gan gyfoedion a staff yr ysgol yn achosi mwy o straen i ddysgwyr

### Meysydd allweddol i'w hystyried

**Polisi**
A yw hyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru?

**Cynlluniau Ailgylchu**
Ydych chi wedi ystyried hyn?

**Fforddiadwyedd**
Ystyriwch costau'r wisg ysgol ofynnol

**Achos Pryder**
Allwch chi adnabod arwyddion? A oes prosesau ar waith i ymdrin â hyn yn effeithiol, a gyda sensitifrwydd?

### Rhai dulliau gweithredu cyflym

- Ymgynghori â rhieni, disgyblion a llywodraethwyr
- Ystyried hyblygrwydd wrth gadw at wisg ysgol
- Ystyried sut mae staff yn delio â thorri rheolau gwisg ysgol
- Ystyried ffyrdd o wneud gwisg ysgol yn llai costus i bob teulu
- Ailgylchu eiddo coll/eitemau gwisg ysgol sydd eisoes yn rhy fach neu nad oes eu hangen mwyach
- Codi ymwybyddiaeth o fudd-daliadau a grantiau y gellir eu hawlio
- Darparu hyfforddiant i staff er mwyn adnabod arwyddion tlodi
- Adnabod/Nodi, monitro a chefnogi dysgwyr o deuluoedd incwm isel/dan anfantais mewn modd sensitif a chadarnhaol

Cewch hyd i'r canllawiau ar wefan Hwb Addysg Llywodraeth Cymru - https://bit.ly/2uZCZ9w

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Pris Tlodi Disgyblion

## Beth mae hyn yn ei olygu a beth all ysgolion ei wneud?

## Effaith ar ddysgwyr

Mae llwgu/newyn yn effeithio ar brofiadau dysgu plant a'u hymddygiad.

Ni all plant sy'n llwgu ganolbwyntio, felly mae eu dysgu yn dioddef. Byddan nhw'n teimlo'n fwy anniddig ac o dan straen.

## Meysydd Allweddol i'w Hystyried

**Hyrwyddo Prydau Ysgol Am Ddim (PYDd)**: Beth mae'r ysgol yn ei wneud i gynyddu hyn?

**Llwgu yn ystod y Gwyliau:**
Beth sydd ar gael yn eich ardal i ddisgyblion?

**Brecwast Ysgol:**
A yw'n gweithredu er budd y rhai mewn angen?

**Achos Pryder:**
Allwch chi adnabod yr arwyddion? A oes prosesau ar waith i ymdrin â hyn yn effeithiol ac yn sensitif?

## Some quick solutions

- Rhai dulliau gweithredu cyflym
- Sicrhau bod pob rhiant/gofalwr yn ymwybodol o'r rhaglen PYDd
- Cefnogi rhieni/gofalwyr i wneud cais am PYDd a buddion eraill fel y Cynllun Talebau Cychwyn Iach
- Monitro ac olrhain PYDd
- Sicrhau bod digon o leoedd ar gael mewn clybiau brecwast am ddim
- Dechrau sgyrsiau am ansicrwydd bwyd a bwyta'n iach fel rhan o'r cwricwlwm. Mae'n bwysig hefyd trafod y gall llwgu/newyn gael ei achosi trwy fwyta'r math 'anghywir' o fwyd ac nid drwy beidio â bwyta o gwbl yn unig .
- Darparu hyfforddiant i staff er mwyn adnabod arwyddion o dlodi a llwgu/newyn
- Adnabod/nodi a chefnogi dysgwyr o deuluoedd ar incwm isel/dan anfantais mewn modd sensitif a chadarnhaol

Cewch hyd i'r canllawiau ar wefan Hwb Addysg Llywodraeth Cymru - https://bit.ly/2uZCZ9w

Am fwy o wybodaeth cysylltwch a kate.thomas@childreninwales.org.uk

info@childreninwales.org | 029 2034 2434 | www.plantyngnghymru.org.uk | www.childreninwales.org

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Pris Tlodi Disgyblion

## Beth mae hyn yn ei olygu a beth all ysgolion ei wneud?

## Effaith ar ddysgwyr

Mae colli allan ar gymryd rhan ym mywyd yr ysgol (teithiau, gweithgareddau, defnyddio offer, dewisiadau pwnc) oherwydd costau, yn arwain at hunan-barch isel, diffyg hyder a llesiant gwaeth ymysg dysgwyr.

## Meysydd Allweddol i'w hystyried

**Gweithgareddau Cyfoethogi**
Beth ellir ei ddefnyddio/wneud i atal gwaharddiad?

**Adnoddau a Deunyddiau**
A yw'r rhain yn achosi rhwystrau a stigma anfwriadol?

**Teithiau Ysgol**
A ydynt yn realistig o ran cost a dulliau talu?

**Digwyddiadau**
A ydynt yn gynhwysol?

## Some quick solutions

- Rhai dulliau gweithredu cyflym
- Ymgysylltu â chwmnïau, mentrau a sefydliadau lleol i gynnal gweithgareddau yn yr ysgol
- Sicrhau nad yw costau sy'n gysylltiedig â phynciau penodol yn rhwystr i ddisgyblion
- Cael mynediad i/hysbysu rhieni am grantiau addysg fach neu fwrsariaethau i gefnogi dysgwyr i brynu offer arbenigol ar gyfer pwnc arbennig
- Ystyried sut i roi cymhorthdal ar gyfer costau teithiau ysgol heb stigmateiddio
- Rhoi digon o rybudd am deithiau ysgol a chaniatáu taliadau mewn rhandaliadau
- Codi ymwybyddiaeth o'r Gronfa Mynediad Grant Tlodi Disgyblion ymhlith teuluoedd sy'n gymwys
- Codi ymwybyddiaeth disgyblion o'r rhwystrau a'r costau posibl sy'n gysylltiedig â rhai gweithgareddau, e.e. gwisgo fel eich hoff gymeriad o lyfr, gwisgo mewn melyn, diwrnodau heb wisg ysgol, beth ellir ei wneud yn wahanol i sicrhau cyfranogiad i bawb?

Cewch hyd i'r canllawiau ar wefan Hwb Addysg Llywodraeth Cymru - https://bit.ly/2uZCZ9w

For further information please contact: kate.thomas@childreninwales.org.uk

info@childreninwales.org | 029 2034 2434 | www.plantyngnghymru.org.uk | www.childreninwales.org

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Pris Tlodi Disgyblion

## Beth mae hyn yn ei olygu a beth all ysgolion ei wneud?

## Effaith ar ddysgwyr

Mae lle mae plentyn yn byw, gyda phwy a'r amgylchedd y mae'n byw ynddo yn effeithio ar ei allu i ddysgu yn yr ysgol.

Gall teimladau o gywilydd a stigma arwain at gyrhaeddiad a llesiant isel.

## Meysydd Allweddol i'w hystyried

**Ymgysylltu â Rhieni**
A yw hyn yn effeithiol?

**Gwaith cartref**
A yw polisi gwaith cartref yr ysgol yn sicrhau nad oes unrhyw gostau ynghlwm wrth y tasgau?

**Cludiant a Gweithgareddau ar Ôl Ysgol**
A yw gweithgareddau'n wirioneddol hygyrch i bawb?

**Bod yn rhan o'r gymuned**
A yw'r ysgol yn annog ymgysylltiad cymunedol ac yn gwneud cysylltiadau?

## Rhai dulliau gweithredu cyflym

- Datblygu diwylliant ac ethos ysgol gyfan
- Ystyried Pecyn Cymorth Ymgysylltu â Theuluoedd Llywodraeth Cymru
- Defnyddio arian Grant Amddifadedd Disgyblion i ariannu gweithiwr ymgysylltu â theuluoedd
- Adolygu polisi gwaith cartref yr ysgol i sicrhau cynhwysedd a'r gallu i gyflawni tasgau gartref
- Cynnig cyfleoedd i rieni/gofalwyr ar gyfer eu datblygiad dysgu eu hunain trwy ddigwyddiadau dysgu teuluol
- Mabwysiadu polisi o ymweld â phob disgybl newydd yn eu cartref
- Annog llais rhiant/gofalwr
- Archwilio pwy sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol ac ystyried a yw cludiant yn rhwystr i ddysgwyr difreintiedig
- Gwneud defnydd o gyfleusterau'r ysgol y tu allan i oriau ysgol lle bo modd, ar gyfer dysgu oedolion, clybiau gwaith cartref, defnyddio mannau chwarae a fydd yn helpu i gysylltu â'r gymuned.

Cewch hyd i'r canllawiau ar wefan Hwb Addysg Llywodraeth Cymru - https://bit.ly/2uZCZ9w

Am fwy o wybodaeth cysylltwch a kate.thomas@childreninwales.org.uk

info@childreninwales.org | 029 2034 2434 | www.plantyngnghymru.org.uk | www.childreninwales.org